

cwmpawd

*eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd*



Golygyddol

Gwynn Williams


Braint yn ddiweddar oedd cael bod yn oedfa bedyddio dau arall o blant yr eglwys. Ymhlith yr erthyglau yn *Cwmparwd* y tro hwn, cawn dystiolaeth y ddau, yn sôn am sut y daethant yn Gristnogion.

Cyfeiria'r ddau at eu magwraeth Gristnogol, ac mae hynny'n sicr yn fantais fawr i blentyn. Braint aruthrol yw cael eich trwytho yng nghynnwys y Beibl o oedran cynnar ac ymgyfarwyddo nid yn unig â hanesion gweithredoedd mawrion Duw yn yr Hen Destament ond dod i wybod, a dysgu hefyd, am fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist. Mantaïs fawr yw cael eich dwyn yn faban i gynulleidfa'r eglwys yn ei haddoliad wythnosol. Gall y plentyn ifancaf synhwyro beth yw hi i fod yn ymwybodol o bresenoldeb Duw. Bendith yn sicr yw bod yn destun gweddïau nid rhieni'n unig, ond hefyd ffyddloniaid y capel. Ydi, mae magwraeth Gristnogol yn werthfawr tu hwnt.

Ond er mor werthfawr y bendithion hyn i gyd, nid ydynt yn gwarantu y

bydd plentyn o reidrwydd yn dod yn Gristion. Nid peth i'w etifeddu yw ffydd, ond rhywbeth y mae'n rhaid i bob un ymarfer drosto'i hun. Nid yw'r rhieni gorau yn gallu ewyllysio ffydd – rhaid i bob plentyn ymateb ei hun. Y sialens i'r rhai a godwyd yn sw'n y pethau – fel pawb arall – yw edifarhau a chredu yn Iesu Grist. Ar y sail fod Nerys a Steffan yn medru cyffesu hyn y'u bedyddiwyd yn ddiweddar.

A ninnau newydd ddathlu'r Pasg lle cawsom gyfle eto i gofio am farwolaeth ac atgyfodiad Iesu Grist, y cwestiwn sydd yn ein hwynebu i gyd yw a ydym ninnau hefyd wedi dod i gredu yn yr un a fu farw dros ein pechodau ac a atgyfodwyd ar fore'r trydydd dydd i'n cyfiawnhau?



... trwy'r Beibl

Gorffwys

Mae'n fwriad gennym yn *Cwmpawd* dros y misoedd nesaf i edrych ar themâu sy'n codi drwy'r Beibl, o'i ddechrau i'w ddiwedd; cysyniadau megis teml, priodas, teyrnas ac ati. Y thema y tro hwn yw gorffwys.

Mae'n siwr mai Hebreaid 3 a 4 yw'r lle gorau i ddechrau, gan y ceir yno esboniad o adnoddau allweddol yn Genesis 2 a Salm 95. Rhybuddir yr Hebreaid i ddyfalbarhau ac i beidio â chaledu eu calonnau 'fel yn y gwrthryfel'. Dyma gyfeiriad at Numeri 13 ac 14. Ar ôl sbïo gwlad Cannan daeth yr ysbiwyr (heblaw am Caleb a Josua) at Moses a'r bobl ag adroddiad a chynghor negyddol: ni ddylid ceisio meddiannu'r wlad oherwydd yr oedd y dynion yno yn anferth. Ymateb y bobl oedd grwgnach a gwrthod ymddiried yn Nuw, er iddo eu dwyn allan o wlad yr Aifft a thrwy'r Môr Coch. Felly tyngodd Duw, 'Ni chânt fyth ddod i mewn i'm gorffwysfa'. Ac felly y

bu; yn ystod y deugain mlynedd nesaf bu farw'r genhedlaeth honno yn yr anialwch.

Er hynny, fe aeth yr Iddewon o'r diwedd i mewn i wlad yr Addewid dan arweiniad Josua. Cyn hynny, cyn rhoi'r Deg Gorchymyn hyd yn oed, cyflwynwyd y Saboth fel diwrnod i'w osod ar wahân (i adlewyrchu'r ffaith fod Duw, ac Israel, ar wahân – yn Sanctaidd) ac i orffwys gan gofio fod Duw wedi eu hachub o slafdod yr wythnos 10 diwrnod yn yr Aifft. Mae'r gorchmynion yn Exodus, Lefiticus a Deuteronomium yn cadarnhau mor bwysig oedd cadw'r Saboth.

Erbyn amser Dafydd, roedd gan bobl Dduw orffwys llawnach; darllenwn 'i'r Arglwydd roi llonyddwch iddo oddi wrthei holl elynion.' (2 Samuel 7:1) Erbyn cyfnod Solomon roedd ganddynt orffwys llwyr. Gallen

gasglu felly mai dyma brif ystyr y gorffwys sydd gan Dduw i'w bobl. Ond nid dyna'r rhesymeg a geir yn Hebraeid. Dyfyniad o Salm 95 yw'r rhybudd i beidio caledu ein calonnau a'r gwrthod mynediad i orffwysfa Duw. Gair pwysig Dafydd yno yw 'Heddiw'. Efallai y byddai rhai wedi clywed geiriau Dafydd ac wedi meddwl, 'Ond ry'n ni yn yr orffwysfa, ry'n ni yng Ngwlad yr Addewid heddiw'. Ateb yr awdur at yr Hebraeid yw: '...petai Josua wedi rhoi gorffwys iddynt, ni byddai Duw (trwy Dafydd yn Salm 95) wedi sôn ar ôl hynny am ddiwrnod arall. Felly, y mae gorffwysfa'r Saboth yn aros yn sicr i bobl Dduw'. (Heb: 4: 8-9). Pwrpas gwlad Canaan a'r dydd o orffwys ar y Saboth oedd pwyntio at yr orffwysfa gyflawn, derfynol.

Beth yw'r orffwysfa hon? Mae Hebraeid 4 yn cyfeirio hefyd at Genesis 2: 'A gorffwysodd Duw ar y seithfed dydd oddi wrth ei holl waith'. Seiliwyd y Saboth ar hyn. Ond mae mwy i'r gair gorffwys yma. Nid yw'n golygu fod Duw yn flinedig. Dywed Genesis 2:2 : 'bendithiodd Duw y seithfed dydd a'i sancteiddio'. Mae Duw'n edrych ar ei greadigaeth ac mae'n fodlon. Uchafbwynt y creu yw'r

***Pwrpas gwlad
Canaan a'r dydd
o orffwys ar
y Saboth oedd
pwyntio at yr
orffwysfa gyflawn,
derfynol.***

orffwysfa sydd ynghadw gan Dduw i'w bobl: y rhai 'sydd yn mynd i mewn i'r orffwysfa.' Cyfeiria hyn at y nefoedd ond mae Hebraeid 4:3 yn y presennol; rydyn ni yn y broses o fynd i mewn i'r orffwysfa nawr. Pwy yw'r 'ni'? 'Oblegid nyni, y rhai sydd wedi credu, sydd yn mynd i mewn i'r orffwysfa..'

Beth yw 'credu'? Yn gyntaf, rhaid cydnabod nad trwy ein gwaith a'n hymdrechion ni y cawn fynd i mewn i orffwysfa Duw – i'w bresenoldeb ac i'r nefoedd. Ein tueddiad ni i gyd yw ceisio gwneud hynny. Ond meddai'r awdur at yr Hebraeid, '...mae pwy bynnag a ddaeth i mewn i'w orffwysfa ef yn gorffwys oddi wrth ei waith, fel y gorffwysodd Duw oddi wrth ei waith yntau'.

Peidiwn â chaledu ein calonnau, peidiwn â chredu y gallwn fod yn gyfiawn o flaen Duw ar sail ein gweithredoedd.

Yn Efengyl Mathew, pennod 12, darllenwn am bobl grefyddol – y Phariseaid – yn cyhuddo Iesu Grist gan ofyn ‘a yw’n gyfreithlon iacháu ar y Saboth?’ ac yn cyhuddo’i ddisgyblion o wneud ‘peth sy’n groes i’r Gyfraith ar y Saboth’. Credai rhain eu bod, o achos eu gweithredoedd, yn iawn o flaen Duw. Gallwn fod yn ddigon tebyg iddynt, ond anniddig fyddwn ni – allwn ni ddim bodloni ein disgwyliadau ein hunain – heb sôn am gyrraedd safon Duw. Un person yn unig sydd wedi gwneud hynny – Iesu Grist – sy’n galw Ei hun yma yn ‘Arglwydd y Saboth’. Nid yw’n gyd-ddigwyddiad fod gwahoddiad Iesu’n dod cyn hyn - ar ddiwedd Mathew 11: ‘Dewch ataf fi, bawb sy’n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi i chi orffwystira’.

Gorffwys trwy’r Beibl: rhai adnodau allweddol

—	<i>Genesis 1 & 2</i>
—	<i>Exodus 16:22-30</i>
—	<i>Exodus 20:8-11</i>
—	<i>Exodus 31:12-17</i>
—	<i>Leviticus 19: 3, 30</i>
—	<i>Numeri 13 & 14</i>
—	<i>2 Samuel 7:1</i>
—	<i>Salm 92</i>
—	<i>Salm 95</i>
—	<i>Matthew 11:12 - 12:14</i>
—	<i>Luc 4:16-21</i>
—	<i>Ioan 5:1-30</i>
—	<i>Hebreaidd 3 & 4</i>

Amazing Grace


Gwen Emyr

Ar 23 Mawrth 2007 rhyddhawyd y ffilm *Amazing Grace* yn y sinemâu, a hynny i gofio 200 mlynedd ers i William Wilberforce (1759-1833) gychwyn y broses o ddileu caethwasiaeth gyda phasio'r 'Slave Trade Act' yn 1807.

Er llwyddiant Wilberforce a'i gydweithwyr yn eu dydd, mae caethwasiaeth yn parhau i blagio'r ddynoliaeth. Yn wir, hyd yn oed yn 2007, amcangyfrifir bod tua 27 miliwn o gaethweision yn y byd. Y gobaith yw y bydd y ffilm ardderchog hon yn ysbrydoliaeth ac yn anogaeth i lawer i frwydro yn erbyn pob tuedd i ecsbloetio pobl a'u trin fel pethau i gynhyrchu elw.

Dylem ddilyn esiampl Wilberforce a chofio bod dynion a merched wedi'u creu ar lun a delw Duw. Mae'r ffilm yn dangos i Wilberforce ddyfalbarhau oherwydd ei ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist, ac am fod ganddo gysylltiad agos â Christnogion megis yr emynydd John Newton ac Isaac Milner.

Y Cymro Ioan Gruffudd sy'n actio rhan Wilberforce yn *Amazing Grace*. Mae ef, ei gyd-actorion a'r tîm cyfan i'w llongyfarch am lwyddo i ail-greu cyfnod arwyddocaol yn hanes gwleidyddol gwledydd Prydain, gan gyfleu'r hanes mewn modd chwaethus a heb ymgolli yn yr agweddau annymunol. Er na ellir disgwyl i ffilm wneud gwaith cyfryngau eraill megis darlith neu gofiant, o fewn ffiniau'r cyfrwng llwyddwyd i ddeffro ein diddordeb, ein hedmygedd a'n diolch.



Dileu'r Gaethfa

Adolygiad gan Noel Gibbard

Nid oedd William Wilberforce yn hwylus iawn ar 12 Mai 1789, ond mynnodd fynd i'w waith: roedd disgwyl iddo annerch Tŷ'r Cyffredin. Llwyddodd i wneud hynny, a siarad am dair awr a hanner. Baich ei neges oedd tynnu sylw at erchylltra'r gaethfasnach. Cyflwynodd dystiolaeth ynglŷn â cham-drin y caethweision a herio'r Tŷ i wneud rhywbeth i'w dileu. Hon, yn ôl Stephen Tomkins, oedd 'The Greatest Speech in History': dyna deitl un o'r penodau yn ei lyfr, *William Wilberforce: a biography*. Mae'n sicr fod yr araith yn aruthrol, er mai colli'r bleidlais a wnaeth Wilberforce y diwrnod hwnnw. Serch hynny, agorwyd y ffordd i drafodaethau pellach. Roedd William Wilberforce yn aelod seneddol a thrwy'r Tŷ oedd yr unig ffordd i sylweddoli ei freuddwyd. Dyfalarhaodd hyd nes dileu'r fasnach ym 1807.

Elw personol masnachwyr, capteiniaid llongau a pherchenogion y planhigfeydd yn India'r Gorllewin,

oedd wrth wraidd y gwrthwynebiad i William Wilberforce. Edrychent ar gaethweision fel eiddo, yr un fath yn union â gwartheg neu ddodrefn. Amcangyfrifir i 800,000 o gaethweision gael eu cymryd o Affrica i India'r Gorllewin yn ystod y ddegawd 1780–90. Arferai masnachwyr o Brydain ddanfôn nwyddau i Affrica i'w gwerthu, a phrynu caethweision â'r elw. Hyrddiwyd hwy i'r llongau fel anifeiliaid, a byddai nifer fawr yn marw ar y daith. Ceir dyfyniadau ar ddechrau pob pennod o'r gyfrol dan sylw yma sy'n dweud rhywbeth am gyflwr truenus y caethweision.


Ond roedd gofid arall yn boen i William Wilberforce hefyd, sef ei gyflwr ysbrydol ef ei hun. Yn y llyfr olrheinir cefndir Wilberforce yn Hull a Chaergrawnt, ei fywyd llac, ei hoffter o bartïon a'i obsesiwn â gamblo. Ond daeth ar draws llyfr Philip Doddridge, *The Rise and Progress of Religion in the Soul*, ac arweiniodd hyn, ynghyd â dylanwadau eraill, i'w dröedigaeth. Dengys yr awdur bwysigrwydd

snach

y profiad hwnnw ym mywyd Wilberforce, a'i osod hefyd yng nghyswllt digwyddiadau'r dydd ym Mhrydain, y chwyldro yn Ffrainc, 1789, a'r cynllwynio yn Nhŷ'r Cyffredin.

Ar ôl brwydr galed gwawriodd dydd y fuddugoliaeth. Wilberforce oedd y tu ôl i'r trefnu i gyd, ond cyflwynwyd y mesur i Dŷ'r Arglwyddi gan Charles Grenvill ar 2 Ionawr 1807, ac i Dŷ'r Cyffredin gan Charles Grey (un y cofiwn amdano oherwydd y te hefyd) ar 23 Chwefror 1807. Derbyniwyd y mesur gan y ddau dŷ.

Cyflwynodd William Wilberforce ei holl fywyd i ymladd dros gyfiawnder i'r gorthrymedig, a thipyn o fenter oedd hynny oherwydd gwyddai am y gwrthwynebiad ffyrnig i'w argyhoeddiadau. Nid oedd lle caletach i ddadlau ei achos na Thŷ'r Cyffredin. Cyfrannodd o'i eiddo, a rhoi cymaint nes iddo farw'n ddigon tlawd. Cydweithiodd â phobl fel Charles Grant, Henry Thornton ac eraill yn y 'Clapham Sect', a wnaeth waith mawr i leddfu caledi bywyd pobl eu dydd. Trugaredd



William Wilberforce: A Biography
Stephen Tomkins
Lion, 2007

Crist oedd y sbardun i weithredu felly. Dywedodd William Wilberforce ei hun: 'Mae'n ddyletswydd gwirioneddol ar bob Cristion i hybu hapusrwydd ei gyd-greaduriaid hyd eithaf ei allu'.

Mae ôl gwaith ymchwil manwl yn y llyfr hwn, ac mae'n darllen yn rhwydd.

Tystiolaeth

Nerys Williams

Rydw i wedi mynd i'r capel ers fy mod yn ferch fach ac wedi tyfu i fyny yn gwybod am Dduw. Onder hynny, doeddwn i ddim yn nabod Duw yn bersonol. Roeddwn yn ddeg mlwydd oed pan ddeallais beth yw ystyr derbyn Duw i mewn i'm bywyd. Sylweddolais fod Duw yn bod mewn gwirionedd, a'i fod Ef yn gwybod popeth amdanaf. Gwelais fy mod yn medru derbyn yr anrheg fwyaf, sef Iesu Grist, er nad oeddwn yn ei haeddu o gwbl. Am flynyddoedd wedi hynny doeddwn i ddim yn teimlo'n wahanol nac yn gweld unrhyw newid yn fy mywyd. Er fy mod yn gwybod popeth yn fy mhen, doeddwn i ddim yn teimlo dim yn fy nghalon, a gwnaeth hyn fi'n gwbl ansicr a oeddwn yn Gristion ai peidio.

Yn ddwy ar bymtheg oed, fe wynebais sialensau bywyd. Roeddwn yn ddigon agored i adael i bethau'r byd fy rheoli, a chafodd y syniad o Dduw ei wthio i gefn fy meddwl. Gwyddwn fod yr hyn yr oeddwn yn ei wneud yn anghywir, ond roedd dilyn llif y byd yn bwysicach. Doedd dim gwir ddiddordeb

gennyf yn Nuw. Ar y pryd, roedd yn ddigon hawdd imi fy nhwyllo fy hun a'r bobl oedd agosaf ataf, gan roi'r argraff fy mod yn hapus, yn gwneud y peth iawn, ac yn dal i fyw fel 'Cristion'.

Y flwyddyn ganlynol, siaradodd Duw â mi, a gofyn pam yr oeddwn yn ei wrthod. Roeddwn yn byw rhyw fath o fywyd deuol, yn ymddwyn mewn un ffordd gyda'm ffrindiau a ffordd arall



yn y capel ar y Sul, ac roedd hyn yn fy ngwneud yn anesmwyth. Sylweddolais nad oedd pwrpas i'm bywyd ar y pryd, a bod rhaid imi ddewis un ffordd neu'r llall. Gwelais fod gan Dduw gymaint mwy i'w gynnig i mi, ac roedd yn fy rhyfeddu ei fod Ef yn dal i'm caru ac am fy ngweld yn un o'i deulu – hyd yn oed os oeddwn wedi troi fy nghefn arno. Penderfynais ofyn i Iesu ddod yn ôl i'm bywyd a dangos imi sut y dylwn fyw iddo Fe. Doedd hi ddim yn hawdd gadael i bethau fynd, ond wedyn dyw Duw ddim yn addo bywyd hawdd. Roeddwn yn sicr o un peth – unwaith yr oedd Duw yn fy nal

yn ei law ni fyddai byth yn fy ngadael i fynd.

Roedd gwyliau'r haf cyn dechrau yn y coleg yn fendith fawr i mi. Dysgais gymaint am beth mae'n ei olygu i fod yn oleuni mewn byd llawn tywyllwch. Roedd mynd i'r coleg yn un o'r sialensau mwyaf i mi eu hwynebu. Roedd byw mewn neuadd heb Gristion arall yn help i mi dyfu yn fy ffydd, a dysgais bwyso mwy ar Dduw.

Ar ôl bron i ddwy flynedd yn y coleg, rwy'n medru tystio bod Duw wedi fy mendithio'n fawr, gan roi ffrindiau ardderchog i mi. Rydw i wedi dysgu bod yn fwy agored am fy ffydd a bod yn fwy hyderus fel Cristion. Weithiau mae'n anodd, ond mae Duw wedi fy annog trwy roi ei nerth Ef ym mhob sefyllfa. Yn ystod y ddwy flynedd bu twf yn yr Undeb Gristnogol Gymraeg ym Mangor, o dri i tua deg o bobl.

Rydw i wedi penderfynu cael fy medyddio oherwydd fy mod i'n teimlo imi dyfu cymaint fel Cristion dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rydw i wedi derbyn rhodd arbennig gan Duw, sef maddeuant pechodau a bywyd tragwyddol, ac rwy'n teimlo bod angen imi ddangos fy niolchgarwch iddo, a datgan yn gyhoeddus yr hyn mae Iesu yn ei olygu i mi.



Tystiolaeth

Steffan Elis

Alla i ddim rhoi dyddiad pendant ar ba bryd y des i'n Gristion. Wrth edrych nôl, fe alla i weld, fodd bynnag, fod ambell ddigwyddiad penodol yn sefyll allan.

Man-a-man imi ddechrau yn y dechrau: ces i fy ngeni i deulu Cristnogol, a Mam a Dad yn caru ac yn ofni Duw. Erbyn hyn rwy'n ddiolchgar am hynny ond tra oeddwn i'n tyfu lan doedd hynny ddim bob amser yn rhywbeth roeddwn i'n ymfalchïo ynddo! Roedd mynd i'r capel ddwywaith bob Sul, peidio â chael chwarae rygbi ar y Sul a nifer o bethau eraill tebyg yn wraidd llawer o rwystredigaeth!

Doedd Cristnogaeth ddim yn gwneud llawer o synnwyr i mi, a doeddwn i ddim yn ei gweld fel mwy na ffeithiau, straeon a rheolau. Pan oeddwn i'n 11 mlwydd oed, es i ar wersyll Cristnogol yn yr haf am yr ail dro, gan imi fwynhau gymaint y tro cyntaf! Alla i ddim cofio lot am yr wyth-

nos honno erbyn hyn, ac mae rhai digwyddiadau ond yn bodoli mewn lluniau bellach – heblaw am un. Galla i gofio gwrando ar bregeth a sylweddoli am y tro cynta bod uffern yn realiti a 'mod i'n ei haeddu. O ganlyniad, ces i gryn dipyn o ofn! Ar ôl mynd adre o'r gwersyll, roeddwn i'n gwybod nad oeddwn i'n Gristion, ond doeddwn i ddim eisiau gwneud dim byd am hynny eto chwaith.

Y flwyddyn wedyn, es i nôl i'r gwersyll a chael profiad tebyg iawn, ond gydag un gwahaniaeth. Y tro yma, ar ôl cael fy argyhoeddi o'm pechod a'm hangen am fadd-euant trwy ras Duw, gweddiais ar Dduw gan ddweud fy mod i'n sori am fy mhechodau, gofyn am faddeuant a gofyn iddo Ef ddod i mewn i 'nghalon i.

Carwn i allu dweud fod popeth yn iawn ar ôl y weddi honno, bod bywyd wedi bod yn hawdd a phopeth wedi gweithio mas yn neis iawn i mi. Ond nid dyna'r

gwir. Yn dilyn yr haf hwnnw, es i trwy gyfnod hir o ansicrwydd. Doeddwn i ddim yn gweld newid mawr yn fy mywyd yn allanol, ac roeddwn yn gofyn cwestiynau fel hyn imi fy hun: 'A ydw i'n Gristion go iawn?' 'Sut ydw i'n gwybod 'mod i'n Gristion?' Parhaodd hyn am flynyddoedd. Roeddwn i wastad yn teimlo fod rhywbeth oedd ddim cweit gyda fi, fel darn olaf y jig-sô, a 'mod i ddim yn gallu bod yn Gristion heb y darn olaf hwnnw. Roeddwn i'n chwilio am sicrwydd ond yn cael dim.

Unwaith eto mae fy rhidyll o gof yn fy methu ynglŷn â dyddiadau, ond pan oeddwn i tua 15 neu 16, rwy'n cofio clywed pregeth ar Mathew 7:7-8 'Gofynnwch, ac fe roddir i chwi; ceisiwch, ac fe gewch; curwch, ac fe agorir i chwi. Oherwydd y mae pawb sy'n gofyn yn derbyn, a'r sawl sy'n ceisio yn cael, ac i'r un sy'n curo agorir y drws.' Dydw i ddim yn cofio lot o gynnwys y bregeth ond rwy'n cofio'r adnod yna. Rhoddodd Duw dawelwch meddwl imi ynglŷn â'm ffydd a phopeth roedd E wedi ei wneud drosaf i. Roeddwn i'n gwybod, o waelod calon, 'bod fy mhrynwr yn fyw' (Job 19:25), bod y Beibl

yn wir, bod Cristnogaeth yn gymaint mwy na ffeithiau, straeon a rheolau, bod Duw wedi caru 'y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddis-tryw ond cael bywyd tragwyddol' (Ioan 3:16).

Ar ôl hynny, fe newidiodd pethau – er, rhaid cyfaddef, na newidiodd pethau gymaint ag y dylen nhw. Roeddwn i'n araf iawn i droi i ffwrdd o'r ffordd yr oeddwn i'n byw. Ar un pwynt, gellid dadlau 'mod i bron yn byw dau fywyd, un gyda'm ffrindiau ac un arall adre ac yn y capel. Ers gadael yr ysgol, mae Duw wedi dysgu cymaint imi trwy bob math o brofiadau, rhai'n anoddach na'i gilydd. Ond beth bynnag yw'r profiadau, galla i ddweud fod Duw gyda fi, ei fod E'n noddfa ac yn nerth imi a 'mod i'n ymddiried ynddo Fe yn unig am bopeth.

Holi Hwn a Hon

Lis Will

Sut y dest ti'n Gristion?

Ces fy magu i fynd i'r capel bob Sul ac mae rhaid i fi ddweud fy mod wrth fy modd yn mynd. Cefais y fraint o fod o dan weinidogaeth efengylaidd yng Nghaersalem, Capel y Bedyddwyr yn Llanelli.

Pan oeddwn tua 14 oed des i sylweddoli (o dan ddylanwad ffrindiau a gweinidogaeth ffyddlon Denis Young) nad oeddwn yn Gristion a gwyddwn pe bawn yn marw y byddwn yn mynd i uffern. Roedd ofn uffern a thragwyddoldeb yn real iawn.

Cynhelid cyrddau pobl ifanc bob nos Sadwrn yn Peniel (cangen Saesneg Caersalem) ac un nos Sadwrn pregethai'r siaradwr gwadd ar hanes Agrippa (Actau 26). Sylweddolais fod yn rhaid i mi ddod i ffydd bersonol yn yr Arglwydd Iesu Grist. Dyna ddechreuad fy mhererindod ysbrydol.

Beth yw dy hoff emyn?

Mae gwahanol emynau yn bwysig ar wahanol gyfnodau ac maen nhw'n llwyddo mor aml i gyfleu yr hyn a deimlaf. Un o'm hoff emynau yw un o eiddo Ann Griffiths, 'O am gael ffydd i edrych' (rhif 169), yn enwedig y llinellau:

Mae'n ddyn i gydymdeimlo

Â'th holl wendidau i gyd

Mae'n Dduw i gario'r orsedd

Ar ddiafol, cnaud a byd.

Mae'r disgrifiad gwych yma o'r Arglwydd Iesu Grist yn un mor gysurlon i'r Cristion.

Pa fath o lyfrau wyt ti'n hoffi eu darllen?

Yn ddiweddar rydw i wedi cael help arbennig wrth ddarllen rhai o fyfyrnodau Joni Eareckson Tada a gweld y ffordd Feiblaidd mae hi'n delio â'i phroblemau. Rwy'n hoff iawn o nofelau sydd â chefnidir hanesyddol, yn enwedig rhai Elizabeth Gaskell.

Beth sy'n help i ti yn dy gerddediad ysbrydol?

Mae cwmni Cristnogion eraill yn werthfawr iawn a dod ynghyd i'r

iams

oedfaon ar y Sul. Mae darllen y Beibl (dilyn cynllun Robert Murray McChayne) yn bwysig wrth gwrs ac mae rhaid i fi ddweud, wrth fynd yn hŷn, fod gweddi yn bwysicach nag erioed.


Sut y byddi di'n treulio d'amser hamdden?

Dydw i ddim yn ei chael hi'n hawdd i ymlacio ond rydw i wrth fy modd yn ymweld â mannau hanesyddol. Mae cestyll wedi'm denu erioed a does dim i guro cestyll sir Gaerfyrddin – yn enwedig castell Dinefwr gyda'r

olygfa hyfryd o ddyffryn Tywi o dano. Rwy hefyd yn hoffi cerdded yn y wlad ac wrthi yn darganfod sawl man dymunol i fynd am dro yn Rhiwbina.

Pa wledydd hoffet ti ymweld â nhw a pham?

Fel y dywedais eisoes rwy'n hoff iawn o fannau hanesyddol. Roedd mynd i Rufain y llynedd yn brofiad arbennig gyda'r adeiladau hanesyddol ar bob tu. Hoffwn ymweld â Pompeii er mwyn gweld yr olion yno, a Boston yn yr Unol Daleithiau i weld lliwiau gwych y coed yn yr Hydref, ac eto, y mannau hanesyddol!



Lis yn Rhufain, 2006

Newyddion

Bedydd

Llawenydd mawr inni oedd achlysur bedydd Steffan Elis a Nerys Williams, ar nos Fawrth, 27 Mawrth. Roedd yn braf gweld cymaint o ffrindiau a theulu'r ddau wedi ymuno gyda ni fel eglwys yng Nghapel y Minster.

Fe wnaethon nhw esbonio sut ddaethon nhw yn Gristnogion mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyhoeddwyd yn y daflen bedydd, ac mae hynny wedi ei ailgyhoeddi yn y rhifyn hwn. Rydyn ni fel eglwys yn diolch am weld gwaith Duw ym mywydau'r ddau ac yn parhau i gofio amdanynt yn ystod eu cyfnod fel myfyrwyr ym mhrifysgol Bangor.

D. Gwylfa Davies

[Noel Gibbard, un o gyfeillion Gwylfa am dros hanner can mlynedd.]

Bu farw D. Gwylfa Davies ar 9 Mawrth 2007, ar ôl cystudd caled. Un o fechgyn Caernarfon oedd Gwylfa, fel ei frawd Elwyn. Yn ystod blynyddoedd cynnar yr achos Cymraeg yma

yng Nghaerdydd, arferai Gwylfa fynychu'r oedfaon a chanu'r piano ar brydiau. Ni phallodd ei ddiddordeb yn yr eglwys efengylaidd Gymraeg. Cerddoriaeth oedd un o'i ddiddordebau pennaf, ac roedd yn ddarllenwr helaeth.

Cyfansoddodd ambell ddarn o farddoniaeth, ac ambell gyfieithiad. Cyfieithodd y darn Saesneg a welir ar gloc yng Nghaer; darn o waith Henry Twells. Dyma gyfieithiad Gwylfa:

*Pan oeddwn yn blentyn dibryder
Llusgo wnâi amser,
Pan oeddwn fachgen llawn hyder
Cerdded wnâi amser,
Ond wedi dod i oedran teg
Dechreuodd redeg,
Ac O! Pan mewn gwith o oedran
Dechreuodd hedfan,
A chyn hir a'r daith bron gorffen
Bydd amser ar ben.
Ai Crist bryd hynny fydd fy Mhen?*



Encil yr Eglwys: yr hen a'r ifanc yn mwynhau ym Mhenfro

Alma Carter

Cofiw'n dyner iawn am Alma Carter sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd. Gweddiwn y bydd y gofal a gaiff yno yn llwyddiannus ac y bydd Alma yn ymwybodol o nerth a chynhaliaeth Duw yn ystod ei salwch.

Encil yr Eglwys

Cafwyd amser hapus iawn yn Encil yr Eglwys yng Nghanolfan yr Haven, Penfro, dydd Iau, 12 Ebrill – dydd Sadwrn, 14 Ebrill. Roedd y tywydd o'n plaid, a bu'n gyfnod braf o atgyfnerthu ein cymdeith-

as gyda'n brodyr a'n chwiorydd yn yr eglwys. Cafwyd cyfle i astudio'r gair ac i weddio, ynghyd ag ymweld â'r traeth a chwarae pob math o gemau. Diolch i bawb fu'n ymwneud â'r trefniadau, ac yn enwedig i Amanda Griffiths am ysgwyddo'r brif faich.

Paned a Sgwrs

Daeth tymor y gwanwyn i ben i'r gwragedd sy'n cyfarfod bob yn ail fore dydd Mawrth yn y Paned a Sgwrs. Rydyn ni bellach wedi gorffen ein hastudiaethau ar nifer o'r Salmau. Yn ystod y tymor daeth Rachel Jones atom i

sôn am waith Cardiff Concern, sef elusen sy'n gwneud gwaith cyng-hori Cristnogol ymhlith unigolion sydd ag amrywiol broblemau. Bu Enid Jones gyda ni yn sôn am waith MERF [Middle Eastern Reformed Fellowship] yng Nghyprus, a chafwyd anogaeth gref i weddiö dros yr eglwys sy'n tyfu yn yr ardal honno o'r byd, ond sy'n wynebu problemau cymhleth ar yr un pryd. Bydd ein trip blynyddol hefyd yn digwydd ar Fehefin 19.



Gerallt a Pamela Emyr

Llongyfarchiadau i Gerallt Emyr a Pamela Thomson ar eu priodas ar 10 Ebrill yng Ngogledd Iwerddon. Cafodd nifer o'r eglwys gyfle i ymuno gyda nhw ar y diwrnod hapus. Pob bendith iddynt ar ddechrau eu bywyd priodasol.

Casgliadau Misol

- Mai - Pabell Mudiad Efengyl-aidd Cymru yn Eisteddfod yr Urdd
- Mehefin - Coleg Bryntirion
- Gorffennaf - i'w gadarnhau

Paned a Sgwrs

Ebrill 17, Mai 1, Mai 15, Mehefin 5 a trip ar Mehefin 19.

Dysgwyr

Mai 12, 10.30 - 12.00am

- Menter Ysgolion Caerdydd,
Gwen Emyr - cyfarfod olaf eleni

Ymwelwyr

- Mai 1 - Sulwyn Jones yn y Cwrdd Gweddi
- Mai 15 - Clyde Briggs yn y Cwrdd Gweddi

Pwyllgor Cwmpawd

Leri George,
Noel Gibbard,
Amanda Griffiths,
Christine James,
Catrin Lewis,
Gwynn Williams

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.30pm
Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
Cylch y Plant Bach | bore Gwener | Newid amser: 10.00 - 11.30am
Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/
Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a
chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

<i>Ebrill</i>	8	<i>Lewis Roderick</i>
	15	<i>Gwynn Williams</i>
	22	<i>Gwynn Williams</i>
	29	<i>Gwydion Lewis / Dewi George</i>
<i>Mai</i>	6	<i>Gwynn Williams</i>
	13	<i>Gwynn Williams</i>
	20	<i>I'w drefnu / Lewis Roderick</i>
	27	<i>Gwynn Williams</i>
<i>Mehefin</i>	3	<i>Gwynn Williams / Lewis Roderick</i>
	10	<i>Gwynn Williams</i>
	17	<i>Gwynn Williams</i>
	24	<i>Noel Gibbard</i>
<i>Gorffennaf</i>	1	<i>Gwynn Williams</i>

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays
Caerdydd